Some Headteachers have been required to go back into the classroom to teach as they are one of the few members of their staff team with the requisite degree qualification in such subjects. Incentivising recruitment to such subjects has been explored but that approach does not necessarily attract the best candidates. There is some evidence to suggest that the further into rural areas of Wales the school is located, the harder it is to recruit to such subjects.

Finally, it is worth reflecting on the skills of the wider workforce and recognising the inter-relationship between the three areas of focus within NAHT Cymru evidence.

It is clear that joined up thinking is required from policy makers, linking the priorities and aims of the major Welsh Government policies in education and the potential demands each places upon the current model for CPD in schools, the Initial Teacher Education settings as well as the current and future workforce.

What are the fundamental policy objectives and does the current school system in Wales have the requisite resources, support and space to deliver them effectively?

If we are committed to providing a world-class education for the children and young people of Wales, such a pragmatic reflection must be undertaken as soon as possible in order to ensure that our schools and workforce are supported to deliver the shared ambition we hold for our pupils.

Comisiynydd y
Gymraeg
Welsh Language
CommissionerAlun Davies AC
Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

31/01/2017

Annwyl Alun

Cynlluniau Strategol y Gymraeg Mewn Addysg

Ysgrifennaf atoch ynghylch y cynlluniau strategol y mae awdurdodau lleol wrthi'n eu paratoi ar hyn o bryd, cyn i chi benderfynu cymeradwyo'r cynlluniau neu beidio.

Mae Comisiynydd y Gymraeg yn ymgynghorai statudol ar y cynlluniau hyn. Yn unol â'r rôl honno, bûm yn ystyried y cynlluniau strategol sydd wedi eu cyhoeddi hyd yma ac yn ymateb iddynt. Rwyf wedi rhannu'r ymatebion hynny gyda eich swyddogion.

Fel nodir yn Strategaeth y Gymraeg ddrafft Llywodraeth Cymru, addysg fydd yr allwedd i gyflawni'r targed o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. O fewn y fframwaith bresennol ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg, Cynlluniau Strategol y Gymraeg Mewn Addysg yw un o'r prif gerbydau ar gyfer gwella argaeledd a safon addysg cyfrwng Cymraeg ac ar gyfer cynyddu'r niferoedd sy'n derbyn eu haddysg trwy gyfrwng y Gymraeg. Gan gydnabod mor allweddol bwysig yw'r cynlluniau hyn i ddyfodol y Gymraeg, hoffwn gynnig rhai argraffiadau cyffredinol ar y cynlluniau yr wyf wedi eu hystyried. Mae'r rhestr sylwadau sydd ynghlwm yn seiliedig ar ystyried 19 o gynlluniau strategol hyd yma a hyderaf bydd y sylwadau yma o ddi-ddordeb ac o ddefnydd. Yn gyffredinol, ni chredaf bod mwyafrif y cynlluniau yn ddigonol gan nad ydynt yn ateb yn llawn gofynion Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a'r canllawiau atodol a ddarparwyd gennych i'r awdurdodau y llynedd. Ni chredaf bydd mwyafrif y cynlluniau hyn yn arwain at gynnydd arwyddocaol yn y ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg na'r nifer o blant a phobl ifanc sy'n derbyn eu haddysg trwy gyfrwng y Gymraeg. O'r herwydd, ni welaf sut bydd y cynlluniau hyn yn cyfrannu'n ystyrlon at gyflawni amcanion Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg.

Comisiynydd y Gymraeg
Siambrau'r Farchnad
5-7 Heol Eglwys Fair
Caerdydd CF10 1AT0845 6033 221
post@comisiynyddygyymraeg.org
Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg

comisiynyddygyymraeg.org

Welsh Language Commissioner
Market Chambers
5-7 St Mary Street
Cardiff CF10 1AT0845 6033 221
post@welshlanguagecommissioner.org
Correspondence welcomed in Welsh and English

welshlanguagecommissioner.org



Comisiynydd y
Gymraeg
Welsh Language
Commissioner

Hyderaf bydd y sylwadau sydd ynghlwm o ddefnydd i chi wrth benderfynu cymeradwyo Cynlluniau Strategol y Gymraeg Mewn Addysg neu beidio.

Yr eiddoch yn gywir,

Meri Huws

Comisiynydd y Gymraeg

copi at : Lynne Neagle AC, Cadeirydd Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg Cynulliad
Cenedlaethol Cymru
Bethan Jenkins AC, Cadeirydd Pwyllgor Diwylliant, yr Iaith Gymraeg a
Chyfathrebu Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Sylwadau Comisiynydd y Gymraeg ar Gynlluniau Strategol y Gymraeg Mewn Addysg Awdurdodau Lleol Cymru, 2017-2020

Mae Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 yn gosod dyletswydd statudol ar awdurdodau lleol Cymru i baratoi Cynlluniau Strategol y Gymraeg Mewn Addysg. Diben y cynlluniau hyn yw gwella'r ffordd y mae awdurdodau yn cynllunio addysg cyfrwng Gymraeg a gwella safonau addysg cyfrwng Gymraeg ac addysgu'r Gymraeg.

O fis Hydref 2016 hyd at fis Chwefror 2017 bu awdurdodau lleol Cymru yn ymgynghori ar gynlluniau drafft newydd. Mae Comisiynydd y Gymraeg yn ymgynghorai statudol ar y cynlluniau hyn ac wedi darparu sylwadau i bob awdurdod unigol ar eu cynlluniau drafft. Cynigir isod rhai argraffiadau cyffredinol ar y cynlluniau ymatebwyd iddynt hyd yma.

1. Y broses o lunio'r cynlluniau

Mae Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 yn gosod trefn statudol ar gyfer ymgynghori ar gynlluniau strategol wrth eu paratoi. Mae dyletswydd ar awdurdodau lleol i ymgynghori ag ystod o bersonau wrth baratoi eu cynlluniau, gan gynnwys Comisiynydd y Gymraeg. Ni wnaeth rhai awdurdodau ymgynghori â mi wrth lunio eu cynlluniau ac mae'n bosib na lwyddodd yr awdurdodau hynny i ymgynghori ag ymgynghoreion statudol eraill ychwaith. Bu'n rhaid gofyn am gopiâu cynlluniau drafft rhai awdurdodau er mwyn gallu ymateb iddynt.

Dewisodd rhai awdurdodau ymgynghori'n gyhoeddus ar eu cynlluniau strategol drafft drwy gynnwys gwybodaeth berthnasol ar eu gwefannau a gwahodd sylwadau gan unrhyw berson. Ni wnaeth eraill hynny, gan arwain at sefyllfa o anghysondeb rhwng siroedd yn y cyfle i unigolion a sefydliadau nad ydynt yn ymgynghoreion statudol i gyfrannu at y broses gynllunio.

Roedd y cynlluniau ymgynghorwyd arnynt yn amrywiol iawn o ran eu cyflawnder. Roedd o leiaf rhywfaint o'r wybodaeth sy'n ofynnol yn unol â'r ddeddf a chanllawiau statudol atodol Llywodraeth Cymru ar goll ym mwyafrif y cynlluniau, gyda rhai bylchau sylweddol iawn. Er enghraifft, mae'n ofynnol dan ganllawiau'r Llywodraeth i gynlluniau gynnwys targedau ar gyfer twf dros amser. Roedd targedau ar goll mewn nifer o'r cynlluniau ymgynghorwyd arnynt ac nid oedd yn hawdd dod i farn ar ddigonolrwydd rhai cynlluniau oherwydd swmp y wybodaeth oedd ar goll.

Cynhaliodd 4 awdurdod lleol ymgynghoriad ar gynlluniau strategol oedd ar gael yn Saesneg yn unig, heb ddarparu fersiwn Gymraeg.

2. Y seiliau cynllunio ar gyfer y Gymraeg mewn addysg

Dwy egwyddor oedd yn sail i Strategaeth Addysg Cyfrwng Gymraeg Llywodraeth Cymru ar gyfer 2010-2015, sef cwrdd â'r galw am addysg cyfrwng Gymraeg a hyrwyddo addysg cyfrwng Gymraeg. Ymddengys o'r cynlluniau yr wyf wedi eu hystyried mai bodloni'r galw presennol am addysg cyfrwng Gymraeg yw prif nod mwyafrif yr awdurdodau lleol wrth gynllunio ar gyfer y Gymraeg mewn addysg. Mae hynny'n anffodus am sawl rheswm. Saesneg yw cyfrwng iaith mwyafrif ysgolion Cymru ac mae hynny'n debygol o effeithio'n sylweddol ar ddewisiadau rhieni wrth fesur y galw am addysg cyfrwng Gymraeg. Deallaf nad yw awdurdodau lleol yn dueddol o rannu gwybodaeth am argaeledd a manteision addysg cyfrwng Gymraeg wrth fesur y galw. Ar ben hynny, nid yw fframwaith o gynllunio

twf sydd wedi ei selio'n llwyr ar fodloni galw ynddo'i hun yn sicrhau cynnydd hirdymor.

Cydnabyddir yng nghanllawiau'r Llywodraeth yr angen i fynd ymhellach na bodloni'r galw am addysg cyfrwng Cymraeg yn unig, a hynny drwy hyrwyddo a chynyddu'r galw. Ond prin iawn yw'r cynlluniau strategol sy'n cynnwys unrhyw fesurau penodol i wneud hynny. Nid oes tystiolaeth ym mwyafrif y cynlluniau strategol bod y cysyniad o greu galw trwy hyrwyddo manteision dwyieithrwydd wedi ei dderbyn a'i fabwysiadu gan awdurdodau lleol. Bydd angen newid meddylfryd er mwyn cynyddu'r niferoedd sy'n derbyn eu haddysg trwy gyfrwng y Gymraeg ar y raddfa fydd ei angen er mwyn cyrraedd y miliwn. Nid yw'r cynlluniau drafft diweddaraf hyn wedi eu gwreiddio yn y feddylfryd honno.

3. Diffyg uchelgais y cynlluniau

Er i Bwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg pedwerydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru argymhell y dylai cynlluniau strategol adlewyrchu amcanion cenedlaethol ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg, roedd y cynlluniau drafft a welwyd yn ddi-uchelgais.

- **Targedau** – mae'r targedau sydd wedi eu gosod gan rhai awdurdodau yn eu cynlluniau yn gostwng dros amser, yn hytrach nag anelu at dwf a gwelliant fel sy'n ofynnol. Er enghraifft, un o ddeilliannau dymunol y cynlluniau hyn yw bod mwy o blant 7 mlwydd oed yn derbyn eu haddysg trwy gyfrwng y Gymraeg. Mewn perthynas â hynny, mae rhai awdurdodau wedi gosod targedau sy'n dangos gostyngiad dros amser yn y niferoedd a'r canrannau. Mae eraill yn anelu at gynnal y nifer presennol yn unig a prin iawn yw'r awdurdodau hynny sy'n anelu at dwf arwyddocaol o ran y targed penodol hwnnw ac eraill. Rhaid derbyn wrth gwrs mai 3 mlynedd yn unig yw cyfnodau'r cynlluniau hyn a bod heriau ynghlwm â chyflawni twf sylweddol mewn cyfnod byr. Er hynny, yn gyffredinol, mae targedau'r cynlluniau strategol drafft yn dangos diffyg uchelgais a bydd angen herio hynny er mwyn sicrhau twf sylweddol dros y blynyddoedd nesaf.
- **Isadeiledd** – prin iawn yw'r cynlluniau strategol sy'n nodi unrhyw fwriad i ymestyn yr isadeiledd ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg, er enghraifft trwy agor sefydliadau addysgol cyfrwng Cymraeg newydd neu newid cyfrwng iaith yr addysgu o fewn sefydliadau sy'n bodoli eisoes. Prin yw'r cyfeiriadau at gynlluniau pendant i ddefnyddio arian cyfalaf y Cynllun Ysgolion 21ain Ganrif at bwrpas ymestyn yr isadeiledd ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg.
- **Cynigion i wella** – Yn hytrach na chynnig 'cynigion i wella' fel sy'n ofynnol dan y Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013, mae mwyafrif y cynlluniau yn canolbwyntio ar ddisgrifio'r ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg sydd eisoes yn ei le. Lle fo awdurdodau wedi llwyddo i ddatblygu addysg cyfrwng Cymraeg dros y blynyddoedd diwethaf, gellir deall y dymuniad i sôn am hynny yn y cynlluniau strategol gan y bydd y datblygiadau hanesyddol yn effeithio ar gyflawniad i'r dyfodol. Ar yr un pryd dylai'r ffocws fod ar 'gynigion i wella' ac yn hynny o beth nid yw'r cynlluniau ar y cyfan yn ateb gofynion y ddeddf.

4. Gofal Plant cyn oed ysgol

Mae ymchwil a gynhaliwyd ar y cyd rhyngof i a Llywodraeth Cymru yn dangos cydberthynas glir rhwng pryd fo rhywun yn dysgu'r Gymraeg a'r tebygolrwydd o fod yn rhugl yn Gymraeg. Ar gyfartaledd mae'r rheini wnaeth ddysgu'r Gymraeg yn bennaf yn yr ysgol feithrin lawer yn fwy tebygol o fod yn rhugl na'r rheini wnaeth ddysgu'r Gymraeg yn

bennaf yn yr ysgol gynradd, ysgol uwchradd neu'n ddiweddarach mewn bywyd. Amlyga hynny bwysigrwydd y sector gofal plant i'r ymdrech i greu siaradwyr Cymraeg newydd rhugl. Yn ogystal, mae cyfraddau trosglwyddo o ofal plant cyfrwng Cymraeg i addysg statudol cyfrwng Cymraeg yn dueddol o fod yn uchel, lle fo darpariaeth addysg statudol cyfrwng Cymraeg ar gael yn hwylus i blant sy'n cychwyn yn yr ysgol. Gellir tybio felly bod sicrhau twf yn nifer y plant sy'n derbyn eu gofal trwy gyfrwng y Gymraeg yn debygol o fod yn allweddol i sicrhau twf yn y nifer sy'n derbyn eu haddysg statudol yn Gymraeg. Er hyn, mae diffyg sylw digonol i'r cyfnod cyn-statudol ym mwyafrif y cynlluniau strategol drafft. Nid yw'n ymddangos bod awdurdodau yn llawn deall mor allweddol yw twf yn y sector hwnnw i effeithiolrwydd eu cynlluniau strategol. Dylid sicrhau bod awdurdodau yn rhoi llawer mwy o bwyslais ar gydweithio â phersonau eraill megis darparwyr gofal plant ac ymwelwyr iechyd er mwyn cynyddu nifer y plant sy'n derbyn eu gofal trwy gyfrwng y Gymraeg.

5. Dilyniant

Gall greu siaradwyr Cymraeg rhugl a hyderus fod yn ddibynnol ar eu cadw o fewn y sector addysg cyfrwng Cymraeg gydol eu taith trwy'r cyfnodau addysg. Bydd greu gweithlu dwyieithog i'r dyfodol yn ddibynnol i raddau o leiaf ar sicrhau bod plant a phobl ifanc yn parhau i ddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg yn y cyfnodau hŷn, er enghraifft wrth ddilyn cymwysterau safon uwch ac ôl 16. Mae'n bryder felly nad yw'r cynlluniau strategol, ar y cyfan, yn cynnwys mesurau cadarn ar gyfer sicrhau dilyniant mewn addysg cyfrwng Cymraeg o un cyfnod addysgol i'r nesaf. Er enghraifft, prin yw'r sôn am ymdrechion i annog disgyblion i barhau i ddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg wrth adael yr ysgol. Nid oes arwydd clir yn y cynlluniau strategol y bydd awdurdodau yn cydweithio â sefydliadau addysg bellach a darparwyr prentisiaethau i ehangu darpariaeth cyfrwng Cymraeg y sector hwnnw. Heb sicrhau gwelliant mewn cyfraddau dilyniant, yn enwedig o'r ysgol i addysg ôl 16, ni welir sut y bydd y cynlluniau strategol hyn yn cyfrannu'n ystyrlon at greu'r gweithlu dwyieithog fydd yn angenrheidiol er mwyn cyflawni llawer o amcanion Strategaeth y Gymraeg ddrafft Llywodraeth Cymru.

6. Cludiant

Tua chwarter ysgolion Cymru sy'n rhai cyfrwng Cymraeg gyda mwyafrif y gweddill yn ysgolion cyfrwng Saesneg. Wrth reswm felly, bydd disgyblion a myfyrwyr o fewn addysg cyfrwng Cymraeg yn fwy dibynnol nag eraill ar gludiant. Mae gwaith ymchwil a gynhaliwyd gennyf i gludiant i addysg ôl 16 yn cadarnhau hynny¹.

Mae adran 10 Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008 yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i hyrwyddo mynediad i addysg a hyfforddiant drwy gyfrwng y Gymraeg ac mae'n ofynnol arnynt i gynnwys yn eu cynlluniau strategol ddatganiad ynghylch hygyrchedd eu darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg. Ceir cyfeiriadau at y ddyletswydd honno yn y cynlluniau drafft wrth i awdurdodau drafod yr her fydd ynghlwm â pharhau i ddarparu cludiant yn y dyfodol tu hwnt i'r hyn sy'n rhaid ei gynnig. Nid yw'r cynlluniau drafft yn dehongli arwyddocâd y ddyletswydd i hyrwyddo mynediad at addysg cyfrwng Cymraeg wrth drafod newidiadau i bolisïau cludiant dros y blynyddoedd nesaf. Yn hytrach, cyfeirir yn unig at y ddyletswydd, heb egluro sut y bwriedir rhoi'r ddyletswydd ar waith wrth ailystyried polisïau cludiant. Dylai'r cynlluniau egluro sut fydd awdurdodau lleol yn diogelu cludiant i addysg cyfrwng Cymraeg er mwyn sicrhau na fydd diffyg cludiant yn reswm i rieni beidio dewis addysg cyfrwng Cymraeg ar gyfer eu plant yn y dyfodol.

7. Darpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol trwy gyfrwng y Gymraeg

Mae'r canllawiau ar baratoi cynlluniau strategol a ddarparwyd y llynedd i awdurdodau lleol gan y Llywodraeth yn gofyn am gynnwys o fewn y cynlluniau amcanion ar gyfer gwella'r ddarpariaeth ADY cyfrwng Cymraeg. Mae gwybodaeth yr wyf yn ei chasglu gan awdurdodau lleol ar hyn o bryd, ac y cyd â Chomisiynydd Plant Cymru, yn dangos anghysondeb daearyddol difrifol yn argaeledd a safon y ddarpariaeth ADY cyfrwng Cymraeg. Er hynny, prin yw'r cynlluniau strategol sy'n cynnwys mesurau cadarn ar gyfer gwella'r ddarpariaeth. Mae'r Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) sydd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar hyn o bryd yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i ddarparu cymorth trwy gyfrwng y Gymraeg ar gyfer plant a phobl ifanc sydd ag anghenion dysgu ychwanegol. Dylai cynlluniau strategol 2017-2020 gynnwys mesurau cadarn ar gyfer gwella'r ddarpariaeth lle fo angen.



Alun Davies AM
Minister for Lifelong Learning and Welsh Language
Welsh Government
Cathays Park
Cardiff
CF10 3NQ

31/01/2017

Dear Alun

Welsh in Education Strategic Plans

I write to you regarding the strategic plans that local authorities are currently preparing, before you decide whether or not to approve the plans.

The Welsh Language Commissioner is a statutory consultee on these plans. In accordance with that role, I have considered the strategic plans that have been published so far and responded to them. I have shared those responses with your officials.

As stated in the Welsh Government's draft Welsh Language Strategy, education will be the key to achieving the target of one million Welsh speakers by 2050. Within the current framework for Welsh-medium education, the Welsh in Education Strategic Plans are one of the main vehicles for improving the availability and standard of Welsh-medium education and for increasing the numbers that receive their education through the medium of Welsh. In acknowledging how crucial these plans are to the future of the Welsh language, I would like to offer some general impressions of the plans that I have examined. The list of comments enclosed is based on an examination of 19 strategic plans so far and I hope that these comments will be of interest and assistance. In general, I do not believe the majority of the plans are adequate as they do not fully meet the requirements of the School Standards and Organisation (Wales) Act 2013 nor the supplementary guidance which you provided to the authorities last year. I do not believe that the majority of these plans will lead to a significant increase in Welsh-medium education provision, nor in the number of children and young people who receive their education through the medium of Welsh. As a result, I fail to see how these plans will make a meaningful contribution towards achieving the Welsh Government's objectives for the Welsh language.

Comisiynydd y Gymraeg
Siambrau'r Farchnad
5-7 Heol Eglwys Fair
Caerdydd CF10 1AT

Welsh Language Commissioner
Market Chambers
5-7 St Mary Street
Cardiff CF10 1AT

0845 6033 221
post@comisiynyddygyymraeg.org
Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg

0845 6033 221
post@welshlanguagecommissioner.org
Correspondence welcomed in Welsh and English



Comisiynydd y
Gymraeg
Welsh Language
Commissioner

I trust the enclosed comments will be of assistance to you in deciding whether or not to approve Welsh in Education Strategic Plans.

Yours sincerely,

Meri Huws

The Welsh Language Commissioner

CC: Lynne Neagle AM, Chair of the National Assembly for Wales' Children, Young People and Education Committee
Bethan Jenkins AM, Chair of the National Assembly for Wales' Culture, Welsh Language and Communications Committee



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA(P)/0452/17

Lynne Neagle AM
Cadeirydd - Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

6 Chwefror 2017

Annwyl Lynne,

Grant Gwella Addysg

Yn sesiwn y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar 12 Ionawr, addewais anfon nodyn ar y Fframwaith Perfformiad Addysg, y fframwaith deilliannau ar gyfer y Grant Gwella Addysg i Ysgolion. Atodaf y nodyn hwnnw yma.

Rydym wedi treialu'r Fframwaith Perfformiad Addysg yn 2016-17 fel rhan o'r trefniadau monitro ar gyfer y Grant Gwella Addysg i Ysgolion. Cyflwynwyd y fframwaith gyda'r nod o symud y grant tuag at drefniant sy'n fwy seiliedig ar ddeilliannau.

Mae'r fframwaith yn nodi tri amcan lefel uchel cyffredinol. I gefnogi hyn, rhaid i gonsortia a'u hawdurdodau lleol bennu dangosyddion perfformiad allweddol a deilliannau mesuradwy fel rhan o'r broses cynllunio busnes. Dylai'r rhain ategu ein strategaeth addysg, Cymwys am Oes.

Y tri gofyniad lefel uchel o fewn y fframwaith yw y bydd awdurdodau lleol yn parhau i weithio'n unol â'r Model Cenedlaethol ar gyfer Gweithio'n Rhanbarthol gan arwain at:

- wella addysgu a dysgu;
- gwella deilliannau addysg, gan gynnwys llythrennedd a rhifedd yn y Cyfnod Sylfaen, Cyfnod Allweddol 2, Cyfnod Allweddol 3 a Chyfnod Allweddol 4, a hynny ar gyfer pob dysgwyr ym mhob lleoliad. Mae hyn yn cynnwys, er enghraifft, grwpiau o ddysgwyr y gwyddys eu bod yn agored i risg o dangyflawni megis materion yn ymwneud â rhyw'r disgyblion, disgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol, Cymraeg a Saesneg fel iaith ychwanegol, neu ddisgyblion o grwpiau lleiafrifoedd ethnig, megis sipsiwn a theithwyr; a
- Gwella deilliannau i ddysgwyr sy'n cael prydau ysgol am ddim a lleihau'r bwch rhyngddynt â'r disgyblion eraill.

Yr awydd i weithio gyda chonsortia ac awdurdodau lleol, yn hytrach na gorfodi ffordd genedlaethol o weithio, er mwyn deall ffyrdd o gasglu tystiolaeth a data oedd y tu ôl i'r syniad o gyflwyno'r fframwaith perfformiad cyfredol. Fel yr amlinellais ar 12 Ionawr yn

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Correspondence.Kirsty.Williams@gov.wales


Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

sesiwn y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, fe arhosaf am adroddiad terfynol y Pwyllgor, ond ar y mater hwn mae'n glir bod angen inni edrych eto ar sut i alinio ein gwaith rheoli perfformiad ar gyfer consortia ac awdurdodau lleol gyda'n blaenoriaethau cenedlaethol. Mae hyn yn benodol gymwys i'r Grant Gwella Addysg i Ysgolion, ond credaf fod cyfleoedd, pan fyddwn yn ailwampio Cymwys am Oes, i edrych ar yr heriau o sicrhau y defnyddir fframwaith yn seiliedig ar ddeilliannau'n ehangach ym maes addysg.

Mae consortia'n derbyn bod amrywiaeth yn yr wybodaeth a geglir ar lefel ranbarthol ac maent wedi cytuno i weithio gyda fy swyddogion i adolygu sut y caiff gwybodaeth ei chasglu ar hyn o bryd. Edrychaf ymlaen at dderbyn adroddiad y pwyllgor.

Yn gywir

A handwritten signature in black ink, appearing to read 'Kirsty Williams'.

Kirsty Williams AM/AC
Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg
Cabinet Secretary for Education



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA-L/ARD/0038/17

Lynne Neagle
Cadeirydd
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
CF99 1NA

SeneddCYPE@assembly.wales

6 Chwefror 2017

Annwyl Lynne,

Yn ystod sesiwn dystiolaeth y pwyllgor am y Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) a fynychais ar 12 Ionawr, cynigiais roi rhagor o wybodaeth i'r pwyllgor, gan gynnwys diweddariad am amseriad y canllawiau arfaethedig ar anghenion gofal iechyd dysgwyr a gwybodaeth am ddatblygu cynlluniau datblygu unigol.

Yn dilyn yr ymgynghoriad ar y Bil drafft yn 2015, rydym wedi gwneud cryn dipyn o waith ar y Bil yn ogystal â'r cod drafft. Mae grŵp o arenigwyr ac ymarferwyr wedi'i sefydlu i ddatblygu cynnwys y cod, sy'n cynnwys partneriaid cyflawni allweddol a chynrychiolwyr y trydydd sector. Mae'r grŵp wedi gweithio'n galed i lunio'r disgrifiad o'r Cynlluniadu Datblygu Unigol a'u cynnwys ac mae wedi cynorthwyo gyda'r broses o gynhyrchu templed safonol.

Mae ymarferwyr, fel rhan o'r grŵp, wedi darparu enghreifftiau dienw o Gynlluniau Datblygu Unigol sy'n cael eu defnyddio o fewn y fframwaith statudol presennol. Canlyniad y gwaith hwn yw'r drafft gweithio diweddaraf o'r cod, a fydd yn cael ei rannu gyda'r pwyllgor y mis hwn. Mae hyn yn adlewyrchu'r syniadau cyfredol gorau a'r gwaith ar y Cynlluniau Gweithredu Unigol ac mae'n well ei ystyried o fewn cyd-destun cyffredinol y cod.

Fel rhan o'm tystiolaeth, soniais am waith y Grŵp Gweithredu Strategol Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) a'i grwpiau arbenigol. Bydd y Grŵp Gweithredu Strategol ADY, a sefydlwyd ym mis Mawrth 2016, yn ystyried y trefniadau gweithredu, pontio a, maes o law, y trefniadau monitro ar gyfer y rhaglen trawsnewid ADY, gan gynnwys y dyletswyddau statudol a gyflwynir o dan y Bil. Bydd hefyd yn gweithredu

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Alun.Davies@llyw.cymru
Correspondence.Alun.Davies@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Tudalen y pecyn 60
We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.


fel cyswllt rhwng awdurdodau lleol, sefydliadau addysg bellach, byrddau iechyd a Llywodraeth Cymru er mwyn helpu i nodi dulliau gweithredol strategol y gellir eu mabwysiadu'n genedlaethol a chytuno ar y dulliau hynny.

Mae rhaglen waith 2016-17 y Grŵp Gweithredu Strategol wedi'i rhannu'n saith thema - Cynlluniau Datblygu Unigol; trosglwyddo a phontio rhwng lleoliadau addysg, darparwyr, gwasanaethau ac i fywyd fel oedolyn; y blynyddoedd cynnar; darpariaeth ôl-16, gan gynnwys darpariaeth arbenigol; Cydlynwyr Anghenion Dysgu Ychwanegol; hyfforddiant ac iechyd.

Mae grwpiau arbenigol wedi cael eu sefydlu i ystyried pob un o'r themâu, o ran eu trefniadau gweithredu, pontio a monitro. Mae pob un o'r grwpiau arbenigol yn cael ei gadeirio gan aelod o'r Grŵp Gweithredu Strategol ADY. Bydd y grŵp arbenigol sy'n edrych ar y Cynlluniau Datblygu Unigol - a'r Grŵp Gweithredu Strategol ADY - yn parhau i fireinio ei gyngor ar Gynlluniau Datblygu Unigol, gan gyfeirio'n benodol at faterion a godwyd yn ystod taith y Bil. Bydd y gwaith hwn yn llywio'r fersiwn o'r cod a fydd yn destun ymgynghoriad, yn amodol ar daith y Bil a chael Cydsyniad Brenhinol.

O ran y canllawiau arfaethedig ar anghenion gofal iechyd, awdurdodau lleol a chyrrff llywodraethu ysgolion a gynhelir sydd â chyfrifoldebau statudol o ran cefnogi plant a phobl ifanc gydag anghenion gofal iechyd. Mae canllawiau penodol yn cael ei hadolygu, er mwyn egluro a chryfhau'r gofynion a'r disgwyliadau hyn. Bwriedir cyhoeddi'r canllawiau *Cefnogi Dysgwyr ag Anghenion Gofal Iechyd* ym mis Mawrth 2017.

Yn gywir



Alun Davies AC/AM

Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes
Minister for Lifelong Learning and Welsh Language

Vaughan Gething AC/AM

Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon
Cabinet Secretary for Health, Well-being and Sport



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref MA - P/VG/0259/17

Lynne Neagle AM
Chair
Children, Young People and Education Committee
National Assembly for Wales
Cardiff Bay.
CF99 1NA.

2 February 2017

Dear Lynne,

On 18 January I attended the Children, Young People and Education Committee for a general scrutiny session. During a discussion on Child and Adolescent Mental Health Services (CAMHS) you raised the issue of CAMHS waiting time data not being routinely available, or published. In response, I noted that the data is routinely available on StatsWales and undertook to provide you with the link which is at the bottom of this letter.

As you will see the data, which has been published for several years, can be interrogated by month retrospectively to April 2010, with the most recent data available being November 2016. Data is published on the second Thursday of every month. There is invariably a lag in publication as health boards collect, validate and submit their returns. Data can also be viewed on an individual health board as well as an all-Wales basis. It can also be disaggregated by individual week from zero to over 40. To make comparison easier the table also distinguishes over three and up to four weeks waiting, in line with the new 28 day target for CAMHS routine referrals.

I would like to point out that we have recently been made aware of some counting errors in the Abertawe Bro Morgannwg and Cwm Taf Health Boards' data. This accounts for the rise in numbers waiting during October, November and possibly earlier in the two health boards. The issue arose as these health boards counted young people accessing Local Primary Mental Health Support Services in error. I understand work is in hand to correct the data, though this may take some time to work through the system.

In relation to the 26 week neurodevelopmental (ND) target this data is not yet routinely collected nor reported, though it is our intention that it will be. We are currently in the process of taking a proposal through NHS informatics and governance procedures to ensure the data is collected accurately and consistently across Wales. I hope we will be in a position to report the first ND data later in 2017.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Vaughan.Gething@llyw.cymru
Correspondence.Vaughan.Gething@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Tudalen y pecyn 62
We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

As far as achievement against both the 28 day and 26 week targets is concerned, health boards should be seeking an 80% success rate in line with the requirement for Local Primary Mental Health Support Services.

<https://statswales.gov.wales/Catalogue/Health-and-Social-Care/NHS-Hospital-Waiting-Times/Inpatient-and-Outpatient-Waiting-Times-for-Non-RTT-Specialties>

Yours sincerely

A handwritten signature in black ink that reads "Vaughan Gething". The signature is written in a cursive style with a large initial 'V'.

Vaughan Gething AC/AM

Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon
Cabinet Secretary for Health, Well-being and Sport



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref MAP/ARD/0213/17

Lynne Neagle AC
Cadeirydd y Pwyllgor
Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

6 Chwefror 2017

Annwyl Lynne,

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 12 Ionawr ynglŷn â threfniadau ariannu Cyngor Cymreig y Gwasanaethau Ieuenctid Gwirfoddol (CWVYS) a rôl y Cynghorau Gwirfoddol Sirol o ran rhannu arferion da ym maes gwaith ieuenctid a chreu dolen rhwng y sector statudol a'r sector gwirfoddol.

Mae'n anffodus bod y Pwyllgor yn dal i deimlo nad wyf wedi ymateb i'w gwestiynau i gyd. Fy mwriad clir oedd ateb y cwestiynau a hefyd fynd gam ymhellach drwy roi gwybodaeth ychwanegol i'r Pwyllgor a fyddai'n rhoi cyd-destun i'r atebion hynny.

Wrth ymddangos gerbron y Pwyllgor ym mis Hydref, dywedais imi fod yn dilyn ymchwiliad y Pwyllgor yn ofalus gan ystyried fy safbwynt yn sgil y dystiolaeth yr oedd y Pwyllgor wedi'i chael. Wrth ystyried hyn, roeddwn yn teimlo y gallai fod yn briodol edrych ar wahanol ffordd o sicrhau cynrychiolaeth a chefnogaeth i'r sector ar 19 Hydref 2016. Ni thrafodwyd trefniadau ariannu CWVYS â'r Grŵp Cyfeirio Gwaith Ieuenctid, nac â'r sector ehangach cyn gwneud y penderfyniad hwn oherwydd ni fyddai wedi bod yn briodol trafod ariannu unrhyw gorff penodol â chyrrff eraill.

Bydd fy swyddogion yn cyfarfod yn rheolaidd â CWVYS. Cysylltwyd yn benodol â CWVYS sawl gwaith yn ystod y cyfnod cyn penderfynu newid y drefn ariannu. Ar 17 Rhagfyr 2015, cyfarfu fy swyddogion â'r Prif Weithredwr ac â Chadeirydd CWVYS i gytuno ar eu hamcanion ar gyfer grant yn 2016/17. Yn y cyfarfod hwn, trafododd y swyddogion y posibilrwydd real iawn na fyddai'r ariannu craidd yn parhau o fis Ebrill 2017 ymlaen. Yn ystod y cyfarfod, cytunwyd hefyd y byddai eu cynllun gwaith ar gyfer grant 2016/17 yn cynnwys amcan newydd ynglŷn â sut y gallai ddod yn gorff cynaliadwy. Cyfarfu swyddog hefyd â Chadeirydd CWVYS ar 14 Mawrth 2016 i drafod ariannu a chynaliadwyedd, llywodraethu a sgiliau o fewn y sefydliad.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Alun.Davies@llyw.cymru
Correspondence.Alun.Davies@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae ein cod ymarfer ar gyfer y trydydd sector yn dweud bod yn rhaid inni roi tri mis o rybudd o leiaf i sefydliadau'r trydydd sector cyn i gytundeb ariannu ddod i ben. Mae'n arfer da hefyd hysbysu'r sawl sy'n cael ei ariannu cyn gynted ag y caiff y penderfyniad ei gadarnhau. Beth bynnag yw'r farn am y ffordd y cafodd y mater ei drin, roedd fy swyddogion am roi cymaint o rybudd â phosibl am y penderfyniad i CWVYS.

Mae gofyn i Lywodraeth Cymru werthuso rhaglenni ariannu bob 3-5 mlynedd fan leiaf. Wrth adolygu'r rhaglen ariannu benodol hon, ystyriais beth oedd pwrpas gwreiddiol y cyllid sef cyfrannu at gostau craidd CWVYS i'w alluogi, ymhlith pethau eraill, i gynrychioli'r sector gwasanaeth ieuencid gwirfoddol a chynnal perthynas effeithiol ag ef. Un ystyriaeth bwysig yw bod angen sicrhau cynrychiolaeth mor eang â phosibl. Roedd ffurflen fonitro chwe-misol CWVYS yn 2016/17 yn dangos bod ganddynt 90 o aelodau. Ni chredaf fod hyn yn cynrychioli'r sector yn ddigonol.

Roedd adroddiad y Drindod Dewi Sant yn datgelu nifer o fylchau, gan gynnwys diffyg cysondeb yn y gefnogaeth i'r sector gwirfoddol drwy Gymru a diffyg ymwybyddiaeth ymhlith mudiadau gwirfoddol lleol ynghylch ymhle a sut y caiff polisi gwaith ieuencid ei ddatblygu.

O ran y pwynt yr ydych yn ei godi am y Cynghorau Gwirfoddol Sirol, gallaf eich sicrhau nad oes penderfyniad wedi'i wneud ac rwyf yn dal i ystyried opsiynau ar gyfer y trefniadau mwyaf priodol i gefnogi'r sector gwaith ieuencid gwirfoddol. Roeddwn wedi cyfeirio at adroddiad y Drindod i ddangos nad yw'r drefn 'yr un maint i bawb' yn gweithio a bod sefydliadau cenedlaethol a lleol wedi dweud eu bod yn gweithio mewn gwahanol ffyrdd sy'n golygu bod gofyn iddynt gael gwahanol fathau o gymorth.

Fel yr ydych yn cydnabod yn eich llythyr, rwyf wedi cytuno ers hyn i roi arian grant i CWVYS ar gyfer 2017/18. Fel sy'n wir am unrhyw grant, mae telerau ac amodau ynghlwm wrth y cyllid. Bydd amcanion y cyllid yn cael eu datblygu ar y cyd â CWVYS. Eleni, o'r diwedd, mae un o'r amcanion hyn y cytunwyd arnynt yn canolbwyntio ar ddefnyddio'r arian i helpu CWVYS i ddod yn sefydliad cynaliadwy. Bydd CWVYS yn datblygu cynllun gwaith sydd wedi'i seilio ar eu hamcanion ariannu ar gyfer 2017/18. Bydd fy swyddogion yn parhau i gyfarfod â CWVYS gan gydweithio â hwy drwy gydol y flwyddyn i fonitro'r cynnydd ar sail eu hamcanion.

Ar gyfer un flwyddyn yn unig y bydd y trefniadau ariannu presennol ar waith ac rwyf yn cadw'r hawl i newid y trefniadau eto os bydd gofyn gwneud pethau'n wahanol er mwyn dilyn trywydd fy mholisi.

Rwy'n gobeithio bod y wybodaeth uchod yn ddigonol i ateb y cwestiynau nad oeddech wedi cael ateb iddynt. Efallai y byddai'n dda gennych wybod, wrth ystyried adroddiad y Pwyllgor a'i argymhelliion, fy mod wedi gofyn i'm swyddogion ymgysylltu â'r Grŵp Cyfeirio Gwaith Ieuencid er mwyn imi ystyried ei farn yntau.

Yn gywir



Alun Davies AC/AM

Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes
Minister for Lifelong Learning and Welsh Language

Eitem 6

Yn rhinwedd paragraff(au) iv o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon